

Gweithdy 1

3.11.21

Addysg Gymraeg a Dwyieithog i bawb

Diolch i chi am fynychu Gweithdy Mapio'r Ddarpariaeth Gyfredol, dyma grynodedb o brif bwyntiau'r drafodaeth.

Prif bwyntiau

Mae problemau strwythurol gyda datblygu darpariaeth Addysg Gymraeg oherwydd diffyg corff cynllunio addysg statudol ar gyfer y sector addysg statudol. Mae Mudiad Meithrin yn arwain yn y sector nas cynhelir ac mae'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol yn arwain cynllunio addysg ôl 16 ac addysg uwch ym maes addysg Gymraeg. Ond nid oes corff yn y sector statudol y tu hwnt i swyddogion Awdurdodau Lleol a rhai swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru. Nid yw'r trefniadau presennol yn llwyddo i gyrraedd pawb sy'n dymuno derbyn addysg Gymraeg.

Mae nifer o swyddogion addysg sydd yn gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid yn hyrwyddo cyfleoedd addysg Gymraeg, ond nid yw hynny yn wir o reidrwydd ym mhob achos. Mae gwybodaeth am addysg ar gael ar-lein ar wefannau awdurdodau lleol. Mae hybiau gwybodaeth mewn llyfrgelloedd o fewn rhai awdurdodau, a dyma lle mae gwahaniaethau lefelau gwybodaeth yn digwydd.

Mae pob ysgol yng Ngwynedd a Môn yn cynnig addysg Gymraeg i newydd ddyfodiad.

Nid oes gan rieni sydd yn ffoaduriaid / ceiswyr lloches ddealltwriaeth fod ganddynt hawl i addysg Gymraeg i'w plant.

Nid yw rhai asiantaethau sy'n gweithio gyda ffoaduriaid / ceiswyr lloches yn hybu addysg Gymraeg. Mae llawer o waith i'w wneud gyda phartneriaid, angen cysoni a chael llwybrau addysg clir o ba bynnag wlad y mae ceiswyr lloches / ffoaduriaid / mewnfudwyr yn dod i Gymru.

Many refugees assume that the Welsh children get in English medium schools is the provision that is available, and are amazed to learn that Welsh Medium schools are available to them.

Nid oes gan yr un ysgol hawl i wrthod lle i unrhyw blentyn (ar wahân i ysgolion ffydd).

Mae hiliaeth/ *systemic racism* yn digwydd o fewn cymunedau Cymraeg mae *denial* fod hyn yn digwydd. Mae pethau positif hefyd yn digwydd o fewn y byd Cymraeg ond mae angen ymwybyddiaeth llawer ehangach.

Mae diffygion darpariaeth yn y Gymraeg mewn ysgolion ffydd.

Mae angen cynyddu niferodd yr athrawon o gefndir ethnig mewn ysgolion.

Mae mewnfudwyr yn mynd i ddod i Brydain o Hong Kong yn y blynyddoedd nesaf. Mae pryderon nad oes llawer o wybodaeth am addysg Gymraeg ar gael, mae angen i gyrff anllwyodraethol ddarparu gwybodaeth. Mae llawer o gam-wybodaeth am ddarpariaeth addysg ar y rhyngwyd.



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL



Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sefydlu prosiectau sy'n ceisio cyflwyno Cymraeg i grwpiau ESOL e.e. yng Ngholeg Merthyr lle cyflwynir y Gymraeg i geiswyr lloches, ac mae agweddau positif iawn gan y dysgwyr.

Nid yw mewnfwydwr/ ffoaduriaid yn ymwybodol fod y Gymraeg yn bodoli, er bod mwy o wybodaeth ar gael erbyn hyn, e.e. Prifysgol Bangor yn rhannu gwybodaeth i deuluoedd o dramor sy'n dod i'r brifysgol.

Mae angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd amrywiol/ mae pamffled addysg Cyngor Casnewydd ar gael mewn 12 iaith.

Mae agweddau pobl sy'n gweithio gyda mudiadau sy'n edrych ar ôl y ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn amrywio. Mae gweithwyr angen sensitifrydd ar gyfer materion dwyieithog.

Cyfranwyr wedi wynebu problemau gyda athrawon yn dweud bod Cymraeg un iaith anodd i geiswyr lloches. Mae pobl yn anghofio bod llawer o geiswyr loches yn dod o wledydd dwyieithog neu amlieithog ac yn gallu dysgu mwy nag un iaith arall ar yr un pryd.

Mae £2.2 miliwn wedi ei glustnodi gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Mae hynny'n gyfystyr â £100 000 ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae angen gwneud gwerth economaidd y Gymraeg yn fwy gweladwy.

Mae cefnogaeth i deuluoedd plant sydd yn derbyn addysg Gymraeg yn hanfodol. Mae pwyslais yn rhai o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg mewn rhai ALL i gefnogi newydd-ddyfodiad a'u teuluoedd.

We want to get rid of the image that Welsh is for White Welsh. Just promote the language, and that it is accessible.



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

